



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 1 Chwefror 2022 am 6.00yh
yn rhithiol ac yn Ystafell Gynhadledd, 36 Pendre, Aberteifi
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 1 February 2022 at 6.00pm
virtually and at the Conference Room, 36 Pendre, Cardigan
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors Trystan Phillips (**yn y gadair** / in the chair), Clive Davies, John Adams-Lewis, Graham Evans, Catrin Miles, Richard Jones, Morvenna Richards, Shan Williams, Steffan Morgan, Siân Maehrlein, Yvonne O’Neill, Elaine Evans, Llinos Haf Jones (**Cyfieithydd** / Translator) Michael Lewis (Tivyside), Eleri Maskell (**Clerc/Clerk**).

1. Croeso’r Cadeirydd a Materion Personol.

Croesawodd Y Cyng Clive Davies bawb i’r cyfarfod a dymunodd wellhad buan i’r Faer, Y Cyng Debra Griffiths. Agorodd Y Cyng Clive Davies y cyfarfod yn absenoldeb y Cyng Trystan Phillips oherwydd ei fod yn rhedeg yn hwyr.

Mynegodd y Cyngorwyr eu tristwch am farwolaeth eu cyfaill Akira Shimazaki – neu Jac Bara Caws fel oedd yn cael ei adnabod yn y dref. Bu farw Jac yn dawel yng Nghartref Brondesbury ar Ionawr 9fed wedi salwch byr. Er mae cydnabod yn unig oedd Jac i’r ran fwyaf yn ystod ei gyfnod cynnar yma yn y dref, yn 2012 datblygwyd eu perthynas pan gytunodd i sefyll etholiad yn Ward y Mwldan fel ymgeisydd dros Plaid Cymru i wasanaethu fel cynghorydd ar y Cyngor yma. Roedd Jac yn bles ac yn browd iawn i gael ei ethol, gan mai fe oedd y cynghorydd cyntaf o Japan yn hanes gwleidyddiaeth Prydain Fawr i wasanaethu ar lywodraeth leol. Bu yn bleser i rhai o’r cynghorwyr gydwasanaethu gydag ef gan fod ei gyfraniad o hyd yn urddasol, yn dawel, a’i awgrymiadau doeth o hyd wedi eu mesur yn ofalus. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys y Santes Faer ar fore Gwener 21ain o Ionawr, pryd y dangoswyd y parch mwyaf iddo – a’r eglwys yn gyfforddus lawn. Drwy addewid i Jac, talwyd teyrnged iddo gan Wynford Jones (cyn cler) a’r Cyng John Adams-Lewis, cyn dilyn yr orymdaith i’r claddedigaeth ym mynwent Nanhyfer. Estynnwn ein cydymdeimlad a’i chwaer a’i deulu yn Japan. Dymunwn hedh, perffaith hedh i Jac ym mynwent brydferth Nanhyfer.

The Chair’s Welcome and Personal Matters.

Cllr Clive Davies welcomed everyone to the meeting and wished the Mayor, Cllr Debra Griffiths a speedy recovery. Cllr Davies opened the meeting on behalf of Cllr Trystan Phillips who was running slightly late.

The councillors wished to express their sadness at the loss of a dear friend Akira Shimazaki – or as he was known in the town, Jac Bara Caws. Jac passed away peacefully in Brondesbury Lodge care home, 9 January after a short illness. In the early years of Jac moving to Cardigan he was a

mere acquaintance, but the relationship developed when he agreed to stand as a Plaid candidate for the Mwdan Ward in a local election back in 2012. Jac was very pleased and proud to be elected and to serve on Cardigan Town Council, especially as he was the first councillor from Japan in the political history of Great Britain to serve at local government. It was a pleasure for some of the councillors to serve with him, he was extremely gracious and respectful and his contributions always well thought out and measured. The funeral service was held in St Mary's Church Friday 21 January, the church was comfortably full indicating the respect he held locally. As promised to Jac, the eulogies were given by Wynford Jones (previous Clerk) and Cllr John Adams-Lewis, before the burial service in Nevern. We wish eternal and peaceful rest to you Jac at the beautiful burial grounds of Nevern church.

2. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd.

Y Cyng Debra Griffiths (salwch).

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.
Cllr Debra Griffiths (ill health).

3. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

Y Cyng / Cllr John Adams-Lewis	<i>Materion Cynllunio / Planning Matters</i>
Y Cyng / Cllr Shan Williams	<i>Materion Cynllunio / Planning Matters: A211099 / A211118</i>
Y Cyng / Cllr Clive Davies	<i>Materion Cynllunio / Planning Matters: A211099</i>
Y Cyng / Cllr Richard Jones	<i>Materion Cynllunio / Planning Matters: A211099</i>

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 4 Ionawr 2022.

Cynigiwyd y Cynghorwyr bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth 4 Ionawr gywir.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 4 January 2022.
The Councillors proposed that the 4 January council minutes be recorded as correct.

5. Cofnodion Cyfarfod Cyllideb y Cyngor

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 18 Ionawr 2022.

Cynigiwyd y Cynghorwyr bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth 18 Ionawr gywir.

Minutes of Council Budget Meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 18 January 2022.
The Councillors proposed that the 18 January council minutes be recorded as correct.

6. Adroddiad y Clerc

I dderbyn adroddiad gan Glerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Ionawr 2022.

- a) Mae'r cytundeb ar gyfer trwydded "Ar Dy Feic" wedi'i lofnodi a'i ddychwelyd i CSC.
 - b) Mae'n bleser eich hysbysu bod portffolio y Clerc ar gyfer y Dystysgrif mewn Gweinyddu Cynghorau Lleol wedi'i basio'n swyddogol. Llongyfarchodd y cynghorwyr y Clerc yn wresog ar y gamp hon.
 - c) Mae adroddiad archwiliad anghymwysiedig am y flwyddyn yn diweddu 2020/21 wedi ei gyhoeddi gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Tref Aberteifi. Mae hysbysiad sy'n arddangos bod yr archwiliad wedi'i gwblhau a bod y Ffurflen Flynyddol ar gael i'w harchwilio wedi'i osod ar hysbysfwrdd y dref, ffenestr y swyddfa a gwefan y cyngor. Arddangosir hefyd y Ffurflenni Blynyddol ardstyiedig fel y gofynnir amdanynt yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Bydd yr hysbysladau hyn yn cael eu harddangos am gyfnod o 14 diwrnod o leiaf.
 - d) Mae'r ymarfer llwybr papur wedi'i gwblhau gan y Cyng Shan Williams a Richard Jones ac mae adroddiad o'r ymchwiliad llwyddiannus wedi'i anfon ymlaen at y cynghorwyr cyn y cyfarfod.
 - e) Mae CAVO wedi gofyn i unhrhyw arian dros ben o'r grant a dderbyniwyd i ariannu ein ciniawau Nadolig y llynedd gael ei ddychwelyd iddynt. Mae hyn er mwyn sicrhau trywydd papur clir ar gyfer eu cofnodion ariannol.
 - f) Mae'r Clerc yn rhoi ddiolch am cael ganiatâd i gymryd 3 wythnos o wyliau blynyddol ym mis Mawrth er mwyn caniatáu iddi deithio gyda'i gŵr sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 60 oed. Bydd y Clerc yn trefnu rhywun i lanw'r swydd dros dro.
- a) The contract for the "Ar Dy Feic" licence has been signed and returned to CCC.
 - b) It is my pleasure to inform you that the Clerk's portfolio for the Certificate in Local Council Administration has been officially passed. The councillors warmly congratulated the clerk on this achievement.
 - c) Audit Wales have issued Cardigan Town Council with an unqualified audit report for the year ending 2020/21. A display notice stating that the audit has been completed and that the Annual Return is available for inspection has been placed in the Town Notice Board, office window and council website. Also displayed are the certified Annual Returns as requested in The Accounts and Audit (Wales) Regulations 2014. These notices will be displayed for a period of at least 14 days.
 - d) The paper trail exercise has been completed by Cllr Shan Williams and Richard Jones and a report of the successful investigation has been forwarded to the councillors prior to the meeting.
 - e) CAVO have requested any leftover monies of the grant received to fund our Christmas dinners last year be returned to them and not donated to the Food Bank. This is to ensure a clear paper trail for their financial records.
 - f) The Clerk is grateful for permission to take 3 weeks annual leave in March to allow her to travel with her husband who is celebrating his 60th birthday. The Clerk will make arrangements for the role to be covered for the duration of the absenteeism.

7. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat

I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahradd.

Ni ddatganwyd unrhyw eitemau.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

Nothing to note.

8. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynir a dadansoddi sylwadau priodol.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A211099	<i>Mr James Lynch 1 Cei Cambrian, Aberteifi, SA43 1EZ /1 Cambrian Quay, Cardigan, SA43 1EZ</i>	<i>Adnewyddu, ymestyn a newid defnydd warws yn ddatblygiad defnydd cymysg, yn amodol ar ganiatâd cynllunio A210388, gan gynnwys cysylltiadau tô newydd i 1 Cei Cambrian Adeilad Rhestredig Gradd II a wal derbyn ogleddol / Refurbishment, extension and change of use of warehouse to mixed use development, subject to planning permission A210388, including new roof connections to 1 Cambrian Quay Grade II Listed Building and northern boundary wall.</i>	<i>I'w drafod yng nghyfarfod nesaf yr is-bwyllgor / To be discussed at the next sub-committee meeting.</i>
A211114	<i>J Morris, Plots 1-6 Llwynpiod, Heol Ferwig, Aberteifi, SA43 1PJ / Plots 1-6, Llwynpiod, Verwig Road, Cardigan, SA43 1PJ.</i>	<i>Diwygio A106 i ganiatau 3 annedd marchnad agored, yn lle 2 annedd marchnad agored i'w gwerthu cyn cyhoeddi tystysgrifau cwblhau mewn perthynas ag anheddau (fforddiadwy) y DFS / Modification of S106 to allow 3 open market dwellings, instead of 2 open market dwellings, to be sold before completion certificates are issued in respect of the DFS (affordable) dwellings.</i>	<i>I'w drafod yng nghyfarfod nesaf yr is-bwyllgor / To be discussed at the next sub-committee meeting.</i>
A211091	<i>West & Wales Utilities, Tir i'r gogledd o Fferm Parc yr Eithin, Aberteifi, SA43 3DP / Land north of Parc yr Eithin Farm, Cardigan, SA43 3DP.</i>	<i>Mae'r datblygiad arfaethedig yn ymwneud â gosod gorsaf lleihau pwysedd nwy (PRS) a ffens diogelwch palisâd ar Fferm Parc Yr Eithin. Mae'r PRS yn cynnwys tri chiosg plastig wedi'u hatgyfnerthu â gwydr, llawr caled, wal gynnal o amgylch perimedr y safle a ffens balis 2.4m gyda giât mynediad a giât allanfa frys / The proposed development involves the installation of a gas Pressure Reducing Station (PRS) and palisade security fencing at Parc</i>	<i>Dim gwrthwynebiadau, ond mae'r cynghorwyr yn dymuno iddo gael ei ystyried a fyddai'n bosibl y bydd dŵr wyneb ychwanegol yn rhedeg oddi ar y safle arfaethedig yn dod yn broblemus, a nodi eu bod yn anghymeradwyo ceisiadau ôl- weithredol / No objections, but councillors wish it be considered whether additional surface water running off the proposed site to possibly become problematic and to note that</i>

		Yr Eithin Farm. The PRS consists of three Glass Reinforced Plastic (GRP) kiosks, hardstanding, a retaining wall around the perimeter of the site and 2.4m palisade fencing with access gate and emergency exit gate.	they disapprove of retrospective applications.
A211118	<i>H James, Tir gerllaw Tywod a Grafel Aberteifi, Penparc, Aberteifi, SA43 1 RB / Land adjacent to Cardigan Sand & Gravel, Penparc, Cardigan, SA43 1RB.</i>	<i>Codi adeilad ffrâm borth a chadw adeilad presennol a gwaith cysylltiedig i wneud darpariaeth ar gyfer uned ddiwydiannol gyffredinol (Dosbarth defnydd B2)/ Erection of portal framed building and retention of existing building and associated works to make provision for a general industrial unit (Use Class B2).</i>	<i>I'w drafod yng nghyfarfod nesaf yr is-bwyllgor / To be discussed at the next sub-committee meeting.</i>

9. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

a) Biliau i'w talu / Bills to be paid

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
1/2/22	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office</i> <i>Band Lydan / Broadband</i> <i>Llogi ystafell gynadledda / Conference room hire</i>	A9 A20 A9	D/D 5162 5162	£250.00 (0.00) £20.00 (0.00) £25.00(0.00)
2/2/22	<i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Ionawr/January)</i>	A5	5163	£1181.24 (0.00)
2/2/22	<i>Bachan Deche / Handyperson (Ionawr/January)</i>	A19	5164	£163.80(27.30)
28/1/22	<i>Gwasanaeth Cyfieithu / Translation Service</i>	A18	5165	£87.50(0.00)
30/11/21	Telemat – Domain renewal trefaberteifi.co.uk	A20	5166	£18.00(3.00)
19/12/21	BT – <i>Anfoneb ffôn / Phone bill</i>	A20	5167	£131.19(15.20)
10/02/22	Parc Piliau (Mark Jukes Containers – fencing panels)	C3	5168	£120.00(20.00)
7/1/22	Emlyn Caffi Tanygores – Ciniawau Nadolig	D3	5169	£200.00(0.00)
31/12/22	M&E Pearce Ltd	B1	5170	£24.36(4.06)
02/2/22	6 x £150.00 <i>Lwfans cynghorwr / Councillor Allowance</i>	A3	5171-5178	£900.00

Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.
The Councillors proposed that the listed bills be paid.

b) Gohebiaeth / Correspondence.

<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
--	----------------------------

331	Lucie Paddison – <i>Cydgysylltydd Gwirfoddolwyr, Byw'n Dda â Cholled Clyw</i> / Volunteer Coordinator, Live Well with Hearing Loss, RNID	<i>Gweminar rhad ac am ddim yn ymdrin â cholled clyw a chefnogi gofawlyr sy'n cael ei rhedeg gan Ofawlyr cymru a'r RNID ar 12 Ionawr 2022</i> / Free webinar covering hearing loss and supporting carers run by Carers Wales and the RNID on 12 January 2022.
332	Meleri Richards – <i>Cydlynnydd Cymunedau Gwledig, CSC</i> / Rural Communities Coordinator, CCC:	<i>Manylion gwarant beiciau cynllun "Ar Dy Feic"</i> / Warranty details for the "Ar Dy Feic" project bikes: The Great Outdoor Gym Company.
333	CAVO	<i>Cynhadledd Pwysau'r Gaeaf, 13 Ionawr 2022</i> / Winter Pressures Summit 13 January 2022.
334	Ageing Well in Wales – <i>Uchafbwyntiau Gwybodaeth Ionawr</i> / Information Highlights January.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 12/1/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 12/1/2022.
335	Gareth Owens – <i>Prif swyddog, cyngor Sir y Fflint</i> / Chief Officer, Flintshire County Council.	<i>Cynhadledd Safonau Cymru 9 Chwefror 10.00yb – 4.00yp</i> / All Wales Standards conference – 9 February 10.00am – 4.00pm.
336	Caroline Wilson – Green Dragon Bus: <i>Posibilrwydd o gael tîm o rieni i yrru bws ysgol bob dydd</i> / Possibility of getting a team of parents to drive a school bus each day.	<i>Clerc i ymchwilio faint yn union o ddisgyblion fyddai'n defnyddio'r gwasanaeth. Byddai angen trwydded D1 ar unrhyw wirfoddolwyr a sefyll prawf Midas syml</i> / Clerk to investigate exactly how many pupils would use the service. Any volunteers would require a D1 licence and to sit a simple Midas test.
337	<i>Y Cyng/CIr Morvenna Richards – Gwybodaeth a anfonwyd ymlaen</i> / Forwarded information:	<i>Sleidiau a dolen i recordiad o'r gweminar ymdrin â cholled clyw a chefnogi gofawlyr cafodd ei rhedeg gan Ofawlyr cymru a'r RNID ar 12 Ionawr 2022</i> / Slides and link to the recording of the webinar covering hearing loss and supporting carers ran by Carers Wales and the RNID on 12 January 2022.
338	<i>Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda</i> / Hywel Dda Community Health Council.	<i>Datganiad i'r wasg</i> / Press release.
339	<i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales:	<i>Bwletin Newyddion</i> / News Bulletin
340	DC Gareth Jordan Heddlu Dyfed Powys Police: Phishing emails.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 19/1/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 19/1/2022.
341	<i>Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Benfro</i> / Pembrokeshire County Council local development plan:	<i>Diweddariad ar amselren a phroses yr adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Benfro</i> / Pembrokeshire County Council local development plan review, timetable and process update.
342	Rachel Williams – <i>Cydlynnydd Datblygu a Gwella, Gofal Cymdeithasol Cymru</i> / Improvement and Development Coordinator, Social Care Wales.	<i>Gwahoddiad i gyfres o ddigwyddiadau rhannu dysg a gynhelir gan y Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar, 24-31 Ionawr 2022</i> / Invitation to series of shared learning events by the Community Resourcefulness Partnership 24-31 January 2022.
343	Lowri Edwards – <i>Dirprwy Swyddog Canlyniadau, CSC</i> / Deputy Returning Officer, CCC.	<i>Tudalen we ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid etholiadau lleol 5 Mai 2022</i> / Webpage for candidates and agents for the local elections, 5 May 2022.
344	Dr Catrin Jones – <i>Swyddog polisi, Un Llais Cymru</i> / Policy Officer, One Voice Wales.	<i>Fideos codi ymwybyddiaeth / hyrwyddo – Cynghorwyr Cymuned a Thref</i> / Raising awareness / promotion videos – Community and Town Councillors.
345	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Cau ffordd dros dro ar 7/2/2022 – 01/4/2022; 7.30-19.00 – Lôn y farchnad, Aberteifi</i> / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order on 7/2/2022 – 01/04/2022 at 7.30-19.00 – Market Lane, Cardigan.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 28/1/2022.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 28/1/2022.
347	Anne-Louise Davies – <i>Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu, CSC</i> / Trading Standards and Licensing	<i>Mae Cyng yn falch o glywed bod CSC yn ystyried Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (PSBO) i fynd i'r afael â'r mater o faw cŵn. Mae'n bosibl hefyd y bydd</i>

	Manager, CCC: <i>Is-ddeddfau baw cŵn / Dog Fouling Byelaws.</i>	<i>cynllun Gwarchod Cŵn lleol yn cael ei sefydlu o fewn y gymuned / Councillors pleased to hear that CCC are considering Public Space Protection Order (PSPO) to tackle the issue of dog fouling. A local dog watch scheme may also be a possibility to be established within the community.</i>
348	Sioe Dydd Sadwrn Barlys: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Ebrill. To be discussed at the April Grants Sub-committee.</i>

- c) **Adolygiad yr Asesiad Risg, Model Cynllun Cyhoeddi, Strategaeth Buddsoddi, Rheoliadau Ariannol a Polisi yr Iaith Cymraeg. Copiau wedi ei flaenyrru drwy e-bost, 25/1/22 (cadwch yn eich ffeil, os gwelwch yn dda).**
Cymeradwywyd a mabwysiadwyd yr Asesiad Risg, Model Cynllun Cyhoeddi, Strategaeth Buddsoddi, Rheoliadau Ariannol a Polisi yr Iaith Cymraeg gan y cyngor ac arwyddwyd gan y Dirprwy Faer, y Cyng Trystan Phillips.
Review of the Risk Assessment, Model Publication Scheme, Annual Investment Strategy, Financial Regulations and Welsh Language Policy. Copies forwarded by e-mail on 25/1/22 (please keep on file).
The Risk Assessment, Model Publication Scheme, Annual Investment Strategy, Financial Regulations and Welsh Language Policy were approved and adopted by the council and signed by the Deputy Mayor, Cllr Trystan Phillips.
- d) **Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.**
Penderfynwyd bod Cynghorwyr yn ymateb yn unigol i'r ymgynghoriad pwysig hwn.
Consultation on planning legislation and policy for second homes and short-term holiday lets.
It was resolved that councillors respond individually to this important consultation.
- e) **Cyflwyniad gan Naomi Marshall, Arweinydd Tîm Ymgysylltu Cymunedol, Voneus Cyf.**
Gwrthododd cynghorwyr y cynnig gan Naomi Marshall i'w gyflwyno i'r cyngor, nid oedd unrhyw ddymuniad i osod y cynsail hwn gyda chwmnïau preifat.
Presentation from Naomi Marshall, Community Engagement Team Leader, Voneus Ltd.
Councillors declined the offer from Naomi Marshall to present to the council, there was no wish to set this precedent with private companies.
- f) **Cytyndeb Porth LoRaWAN Cyngor Sir Ceredigion.**
Penderfynwyd parhau i annog gosod pwyntiau porth pellach yn Aberteifi ac ymchwilio i wahanol synwyrddion a chynlluniau o ganlyniad. Hoffai'r Cynghorwyr ddatgan eu gwerthfawrogiad i'r Cyng Clive Davies am ei waith arloesol yn y maes hwn a sicrhau bod Aberteifi yn cael ei sefydlu fel tref SMART newydd.
Ceredigion County Council LoRaWAN Gateway Agreement.
It was resolved to continue to encourage placing further gateway points in Cardigan and to research various sensors and schemes as a result. Councillors wish to express their appreciation to Cllr Clive Davies for his innovative work in this field and making sure that Cardigan is established as a new SMART town.
- g) **Prydles y ystafell swyddfa 36 Pendre, Aberteifi, SA43 1JS.**
Cytunodd y cynghorwyr i adnewyddu'r brydles am y 3 blynedd nesaf.
Lease of office room 36 Pendre, Cardigan, SA43 1JS.
Councillors agreed to renew the lease for the next 3 years.
- h) **Y Strand, Aberteifi – Prydles 30 mlynedd.**
Penderfynodd y cynghorwyr geisio cael prydles 30 mlynedd ar Y Strand. Byddai hyn yn

diogelu gwaith yn y dyfodol gyda NRW, DCWW a CSC (mewn partneriaeth) ac yn sicrhau bod yr ardal yn cael ei chadw i safon dderbyniol i alluogi mynediad cyhoeddus a defnydd o'r safle.

The Strand, Cardigan – 30 year lease.

Councillors resolved to attempt to obtain the 30 year lease of The Strand. This would safeguard future work with the NRW, DCWW and CCC (in partnership) and ensure the area is kept to an acceptable standard to enable public access and use of the site.

- i) **Mae Sara Green a Howard Tolley, Just Solutions wedi cael eu gwahodd i gyflwyno fersiwn cryno o'r astudiaeth ddichonoldeb fanwl ynghylch opsiynau ar gyfer Pwll Nofio Aberteifi yn y dyfodol. Cadarnhaodd cynghorwyr fod y dyddiad yn addas ar gyfer rhan fwyaf o aelodau. Bydd y cyfarfod yn sesiwn preifat nos Fawrth 8 Chwefror am 6.00yh, bydd y cyflwyniad yn cael ei wneud ar yr rhyngwyd.**

Sara Green and Howard Tolley, Just Solutions have been invited to present a condensed version of the detailed feasibility study regarding future options for Cardigan Swimming Pool. Councillors confirmed the date was suitable for most members. The meeting will be held as a private session Tuesday 8 February at 6.00pm, the presentation will be made remotely.

10. Eitemau er gwybodaeth yn unig

- a) **Dyddiadur y Maer / Mayors' Diary.**

Oherwydd afiechyd nid oedd y Maer yn gallu cyflwyno adroddiad.

Due to ill health the Mayor was unable to submit a report.

- b) **Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.**

Y Cyng Elaine Evan Ward Rhyd-y-fuwch

Rwyf wedi bod mewn cysylltiad ag o leiaf 6 o bobl yn ystod y mis diwethaf sy'n poeni am ble y maent yn mynd i fyw oherwydd eu bod wedi cael hysbysiadau ar eu heiddo oherwydd bod landlordiaid yn gwerthu. Rwyf wedi helpu un person ynghyd â CSC i gael ei ailgartrefu mewn llety dros dro tra ei bod yn chwilio am tŷ preifat. Rwyf mewn cysylltiad â'r cyngor i geisio cymorth ar gyfer o leiaf 4 teulu arall yn yr un sefyllfa. Ymddengys fod hwn yn fater cynyddol.

Goleuadau traffig heibio Parc Teifi: Mae ymgyngoriad yn parhau gyda swyddogion i geisio unioni'r sefyllfa hon. Yn dilyn caniatâd cynllunio adeiladodd y tîrfeddiannwr strwythur a mynedfa newydd, gloddio'r gefnogaeth priffordd caergawell presennol heb Awdurdod Priffyrdd Lleol blaenorol ac arweiniodd hyn at fethiant/dod a tua 30m o'r briffordd yn anniogel. Codwyd strwythur caergawell newydd gan y tîrfeddiannwr i ddarparu mynedfa newydd, fodd bynnag nid oedd y dyluniad yn ddigonol ac roedd y briffordd yn parhau i fethu.

Mae'r tîrfeddiannwr wedi cyflogi gwasanaeth Barratt Associates i ddylunio datrysiad addas i ddarparu cefnogaeth strwythurol digonol i'r briffordd. Cymeradwywyd hyn gan y cyngor ar 24 Awst 2021 ac aeth Mr Barratt at gontractwr lleol sydd wedi'i gofrestru gyda'r cyngor i wneud gwaith Priffyrdd drwy Fframwaith y Cyngor.

Anfonwyd telerau ac amodau at y tîrfeddiannwr i wneud y gwaith a oedd yn amod bod angen bond i dalu am gost amcangyfrifedig y gwaith cyfan ar 25 Awst 2021. Dychwelwyd copi wedi'i lofnodi i'r cyngor ar 9 medi 2021.

Ers arwyddo'r cytundeb bu nifer o ohebiaeth gyda Mr Barratt yn gweithredu ar ran y tîrfeddiannwr i sicrhau'r bond hyn, ond may hyn wedi bod yn amhendiant. Mae CSC bellach mewn sefyllfa lle mae angen iddynt symud ymlaen i'r datrysiad terfynol a'r opsiynau sy'n agored iddynt, pob un yn cynnwys lefelau amrywiol o risg y bydd angen eu cydbwysu yn erbyn yr aflonyddwch parhaus, yr effaith ar adnoddau a chost y cyngor, sef:

- i. **Gwneud dim – ddim yn opsiwn gan fod dyletswydd gyfreithiol arnynt dan Ddeddf Priffyrdd 1980 i gynnal a chadw'r briffordd a thynnu'r goleuadau traffig ac ati. Byddai**

hyn yn achosi straen ychwanegol ar weddill y lôn redeg, gan achosi methiant cynamserol o bosibl.

- ii. Aros i'r Datblygwr sicrhau bond – Nid yw'r Cyngor yn rheoli hyn y thra byddant yn aros, mae'r goleuadau yn parhau yn eu lle. Mae'r llwybrau cyfreithiol ar gyfer diffyg cydymffurfio ar gael, ond bydd y rhain yn golygu y bydd angen i'r cyngor ddylunio, caffael a gweithredu'r cyfnod adeiladu. O ystyried y problemau adnoddau sydd ganddynt ar hyn o bryd, bydd yn parhau cau'r lôn am 6 mis arall o bosibl. Gallai adennill yr holl gostau (a fydd yn llawer mwy na'r costau a ddyfynnwyd gan Mr Barratt ar gyfer adeiladu yn unig) arwain ar her gyfreithiol neu her gan eu hyswirwyr. Bydd hyn yn anochel yn golygu llawer mwy o oriau o amser swyddogion na fyddai modd eu hadennill.
- iii. Bwrw ymlaen heb Fond yn ei le – Tra byddai hyn yn anarferol, mae cost y gwaith yn gymharol fach ac mae'r amserlen ar gyfer adeiladu yn fyr (4wythnos). Ystyrir bod y risg y bydd y contractwr (wedi'i liniaru trwy fynnu bod Contractwr o Fframwaith y cyngor yn cael ei ddefnyddio) yn mynd i derbyniad yn isel. Hyd yn oed pe bai hyn y digwydd, bydd y Cyngor yn gallu parhau yn debyg i Opsiwn 2 ac adennill unrhyw gostau gan y tirfeddianwr. Dim ond os bydd y datblygwr yn methu â chwblhau'r gwaith y bydd y risg yn dod i'r fei a a bydd rhai i'r Cyngor ymyrryd ac ymgymryd â'r gwaith.
- iv. CSC sy'n gwneud y gwaith – Y Cyngor sy'n rheoli hyn yn gyfan gwbl, fodd bynnag bydd yn rhi pwysau ychwanegol ar adnoddau sydd eisoes wedi'u dyrannu'n llawn. Bydd y gwaith yn cael ei wneud ar y dybiaeth sylfaenol bod adennill costau llawn yn opsiwn, ond nid yw hyn byth yn sicr wrth ymdrin ag yswirwyr ac unrhyw heriau cyfreithiol sydd â thebygolrwydd cymedrol o ddigwydd. Bydd costau na ellir eu hadennill yn gysylltiedig â hyn wrth i swyddogion ddarparu tystiolaeth a barn.

O ystyried lefel y risg, a oedd wedi'i chydbwysu yn erbyn yr amhariad parhaus a'r effaith ar adnoddau a chost y Cyngor, cadarnhaodd Phil Jones (swyddog CSC) y bydd cynnydd yn cael ei wneud yn dilyn opsiwn (iii) fel y disgrifir uchod. Unwaith y byddant yn clywed yn ôl gan Mr Barratt, bydd CSC mewn gwell sefyllfa i roi cyngor. Mae sylwadau gan aelodau'r cyhoedd yn cynnwys:

"Mae teulu yn byw yn y cae ar ochr Aberteifi i'r eiddo yn yr hyn sy'n ymddangos yn fws wedi'i addasu. Mae darnau i'w gweld yn cronni o amgylch y bws."

"Mae safle Tŷ Morfa yn erdych fel dymp. Yn ofnadwy iawn. A all y cyngor neu'r cyngor tref wneud unrhyw beth am y llanast hwn gan sy'n cyfarch pobl sy'n dod i mewn i Aberteifi o'r cyfeiriad hwn."

Maent wedi'u diweddarau p'r datblygiadau diweddaraf.

Toiledau Gerddi Fictoria – Dywedodd Paul Williams o CSC wrthyf ar 26 Ionawr fod y toiledau wedi'u paentio, ond oherwydd bod y paent yn dal yn llaith, byddant yn parhau ar gau tan yr wythnos hon. Efallai y bydd posibilrwydd o'u hailadeiladu yn y dyfodol. Mae'r toiledau y tu ôl i Theatr Mwlidan hefyd wedi'u fandaleithio'n ddiweddar ond wedi'u hatgyweirio'n gyflym a'u hailagor.

Cllr Elaine Evans Rhyd-y-fuwch Ward

I have been in contact with at least 6 people in the last month or so who are worried about where they are going to live because they have had notices on their properties due to landlords selling. I have helped one vulnerable person together with CCC to be rehoused in temporary accommodation whilst she looks for private accommodation. I am in contact with the council to seek help for at least another 4 families in the same predicament, this seems to be a growing issue.

The traffic lights past Parc Teifi: Consultation is ongoing between CCC officers to try and remedy this situation. The landowner, following planning permission built a new structure and access, excavated the existing gabion highway support without prior Local Highway Authority approval

and this resulted in approximately 30m of the highway to fail/become unsafe. A new gabion structure was erected by the landowner to provide a new access, however the design was not sufficient and the highway continued to fail.

The landowner has employed the services of Barratt Associates to design a suitable solution to provide adequate structural support to the highway. This was approved by the Council on 24th August 2021 and Mr Barratt approached a local contractor that is registered with the Council to undertake Highway works through the Councils Framework.

Terms and conditions (S.278 Highways Act 1980) were sent to the landowner to carry out the works which conditioned a requirement for a bond covering the estimated cost of the whole works on 25th August 2021. A signed copy was returned to the Council on 9th September 2021. Since the agreement was signed there have been numerous correspondences with Mr Barratt acting for the landowner to secure this bond, however this has proved inconclusive.

CCC are now in a position where they need to progress to final solution and the options open to them, each containing various levels of risk which will need to be balanced against the continuing disruption, impact on Council resource and cost, and these are:

- i. **Do Nothing** – not an option as they have a legal duty under Highways Act 1980 to maintain the highway and remove the traffic lights etc. This would also cause additional stress on the remaining running lane, potentially causing premature failure.
- ii. **Wait for Developer to secure Bond** – The Council are not in control of this and whilst they wait, the lights remain in place. The legal routes for non-compliance are available, but these will lead to the Council needing to design, procure and implement the construction phase. Given the resource issues that they currently have, it will extend the lane closure for possibly another 6 months. Recovery of all the costs (which will be far greater than the costs quoted by Mr Barratt for construction only) may lead to a legal challenge or challenge by their insurers. This will inevitably involve many more hours of officers time that would be unrecoverable.
- iii. **Proceed without a Bond in place** – Whilst this would be unusual, the cost of the works are relatively small and the timescale for construction is short (4 weeks). The risk that the contractor (mitigated by insisting on a Contractor from the Councils Framework being used) goes into administration are considered to be low. Even if this were to happen, the Council will be able to continue along the lines of Option 2 and recover any costs from the landowner. The risk will only materialise if the developer defaults or fails to complete and the Council will have to intervene and undertake the work.
- iv. **CCC undertake the works** – The Council are entirely in control of this, however it will place additional pressure on resources that are already fully allocated. The works will be done on the basic assumption that full cost recovery is an option, however this is never certain when dealing with insurers and any legal challenges that have a moderate likelihood of occurring. There will be unrecoverable cost associated with this as officers provide evidence and opinion.

Given the level of risk, which when balanced against the continuing disruption and impact on Council resources and cost, Phil Jones (CCC officer) confirmed that progress will be made using option (iii) as described above. Once they hear back from Mr Barratt Ceredigion will be in a better position to advise. Comments from members of the public include:

"A family is living in the field on the Cardigan side of the property in what appears to be a modified bus. Bits and pieces seem to be accumulating around the bus."

"The Ty Morfa site looks like a dump. Really appalling. Can the council or town council do anything about this mess greeting people coming into Cardigan from this direction."

They have been updated of the latest developments.

Victoria gardens

Paul Williams from CCC advised me on 26 January that the toilets had been painted, but due to the paint still being damp, they will remain closed until this week. There may be a possibility of rebuilding them in the future. The toilets behind Theatre Mwldan have also been vandalised but repaired swiftly and reopened.

Y Cyng John Adams-Lewis Ward Mwldan

Mae ddau ddamwaun arall wedi bod ar y A487 yn 'killer bend' – derbyniais ffotos wrth Jayne Cook sydd yn byw gerllaw – rwyf wedi anfon llythyr a'r ffotos eto i Lee Waters y Gweinidog yn y Cynulliad a chyfrifoldeb dros y darn yma. Mae Ben Lake a Elin Jones hefyd wedi ysgrifenni at y gweinidog. Dw i ddim yn obeithiol iawn, yn ol y sylwadau anherbyniol mae wedi ei wneud hyd hyn – yn lle mynd I'r afael a'r ateb parhaol. Mae yn hen bryd i gael penderfyniad effeithiol I'r man peryglus yma.

Cllr John Adams-Lewis Mwldan Ward

There have been another two accidents on the A487 at "killer bend" – I received photos from Jayne Cook who lives nearby – I have sent the photos and a letter to Lee Waters the Member in the Assembly responsible for this bit of road. Ben Lake and Elin Jones have also written to the Assembly Member. I don't hold out much hope, after the unacceptable comments made up until now – instead of making the appropriate decision. It's about time to have an effective plan for this dangerous point.

Y Cyng Catrin Miles Ward Teifi

COVID: Erbyn hyn, dim ond profion PCR sy'n cael eu cyfrif felly mae'r ffigwr tipyn yn is na phan oedd PCR ac LFT yn cael eu cofnodi. I roi ffigyrau diweddaraf: 541,6/100k (PCR & LFT) ond dim ond 260/100k (PCR yn unig). Mae'r rhan helaeth o'r achosion mewn ysgolion gynradd – disgyblion a'u rhieni – ond does dim un ysgol ar gau ar hyn o bryd.

HAMDDEN: doe, ail-agorodd Canolfannau Hamdden Ceredigion ac fe gefais i a Clive wahoddiad i edrych o amgylch canolfan Aberteifi sydd wedi cael ei adfer 100% ers iddo fod yn ganolfan brechu i'r gwasanaeth iechyd. Mae'r staff a'r adeilad yn fwy na pharod i bawb ail-ymuno a dosbarthiadau a gweithgareddau cadw'n heini – sy'n cynnwys yr holl bwysig NERS ar gyfer bobl sydd wedi cael eu cyfeirio gan feddyg teulu.

LLYFRGELLOEDD o 'fory ymlaen bydd modd defnyddio'r cyfrifiaduron am hanner awr, wedi bwcio o flaen llaw. Mae modd pori'r silffoedd lyfrau hefyd.

CYLLID: mae CSC wedi bod yn edrych ar gyllid ddrafft y Cyngor yn Cabinet bore ma. Bydd y drafft yn cael ei ystyried gan y wahanol bwyllgorau craffu cyn bod penderfyniad i'w wneud. Bydd manylion pellach erbyn ein cyfarfod nesaf.

ETROS: Bydd y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol yn mynd allan i ymgynghoriad ac fe fydd hysbys yn y wasg. Noder bod dim elfen o gau strydoedd ynglwm fan hyn.

PENDRE: roedd problem ynglyn a dwr yn gorlifo y tu fas i Mundos, Food or Thought ond hyd y gwelai mae hyn wedi cael ei gywiro ond cadw llygad arno ta beth.

COVID: by now, only PCR tests are counted so the figure reported is considerably lower than previously, when PCR and LFT tests were noted. Ref the latest figures: 542,6 per 100,000 (PCR and LFT) but only 260 per 100,000 for PCR tests. Cases are being found predominantly in Junior schools – pupils, then transferring to their parents – but no school is closed at present.

LEISURE: yesterday CCC's centres re-opened and Clive and I had an invitation to look around our local centre that's been reinstated 100% since it was a mass vaccination centre for the health board. The staff & buildings are more than ready for everyone to recommence classes and activities – that includes the all-important NERS service for GP referrals.

LIBRARIES: from tomorrow, computers can be used for ½ an hour, with prior booking, and members of the public can browse the book shelves too.

BUDGET: CCC studied the draft budget in Cabinet this morning before it comes before the various Scrutiny committees prior to decision. Further details in next month's meeting.

ETROS: the Temporary Traffic Regulation Orders will go out to consultation once there is an announcement in the local press. Important to note that there is no element of road closure.

PENDRE: there was a problem with drains/water outside Mundos/Food for Thought. It appears to be resolved but I'll keep an eye on things in any case.

c) Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson's Report

- i. **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Children's Play Area**
Dim byd o bwys i'w gofnodi / Nothing of note to record.
- ii. **Man chwarae amblwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.**
Mae'r peipiau gwter sy'n perthyn i'r clwb Rygbi wedi'u difrodi ac angen eu trwsio, Keith Phillips Cadeirydd y Clwb i gael gwybod / The guttering downpipes belonging to the RFC are damaged and need to be repaired, Keith Phillips the Chairman of the Club to be informed.
- iii. **Maes Sgrialu / Skateboard Park**
Dim byd o bwys i'w gofnodi / Nothing of note to record.
- iv. **Cyffredinol / General**
Mae nifer o ymholiadau wedi dod i law ynghylch cael gwared ar y goeden nadolig, mae trefniadau wedi eu gwneud i'w symud ddydd Sul 6 Chwefror.
Several queries have been received regarding the removal of the Christmas tree, arrangements have been made to remove it Sunday 6 February.

11. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf **Items for the next Agenda**

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.30yh.
There being no further business to discuss, the meeting closed at 7.30pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date